## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **9 Mehefin 2023** |
| **Teitl:** | **Protocol ar gyfer Mynychu Cyfarfodydd Aml-leoliad Awdurdodau Lleol a Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried y Protocol drafft** |

**Cefndir**
Crëwyd y protocol drafft hwn, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Statudol Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru i ddarparu canllaw ynghylch gweithredu'r Rheoliadau ac amlinellu'r broses mewn perthynas i gyfarfodydd cyhoeddus Cyngor Sir Ceredigion, gan nodi'r materion ymarferol y bydd angen mynd i'r afael â nhw mewn perthynas â phrotocolau ar gyfer cyfarfodydd hybrid.

Mae'r protocol hwn yn disodli'r protocol blaenorol ar gyfer presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd, a ddatblygwyd mewn ymateb i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

Yn sail i'r Protocol hwn mae'r egwyddorion sylfaenol y bydd ymddygiad yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau a bod uniondeb a diogelwch unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei chynnal.

**Camau Nesaf**
I Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y protocol drafft, a gwneud argymhellion i'r Cyngor o ran cynnwys y protocol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Gall y protocol drafft gael ei adolygu ymhellach os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw newidiadau i'r canllawiau drafft. Bydd aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sydd ar ddod.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | Ystyried y protocol drafft |
| **Atodiadau:** | |
| **Dogfennau cefndir:** | Arweiniad Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru |
| **Enw:** | Lowri Edwards |
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 29.03.2023 |